MAB Y DYN

Adnod agoriadol:

"Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig." (Luc 19:10)

Mae'r teitl 'Mab y Dyn' yn ymddangos oddeutu wyth deg dau o weithiau yn y Testament Newydd a'r rhain i gyd, ond un, yn ymddangos yn y pedair efengyl. Yr eithriad yw geiriau Steffan, yn Llyfr yr Actau, "Edrychwch, rwy'n gweld y nefoedd yn agored, a Mab y Dyn yn sefyll ar ddeheulaw Duw" (Actau 7:56). Yn yr efengylau mae'r teitlau i gyd ond un yn dod o enau Iesu ei hun, sef cwestiwn y dyrfa yn Jerwsalem yn ystod y dyddiau olaf cyn ei groeshoelio, "Yr ydym ni wedi dysgu o'r Gyfraith fod y Meseia i aros am byth. Sut yr wyt ti'n dweud, felly, bod yn rhaid i Fab y Dyn gael ei ddyrchafu? Pwy yw'r Mab y Dyn yma? (Ioan 12:34) Felly, yn ôl tystiolaeth yr Efengylau, dyma deitl y mae Iesu ei hun wedi'i ddewis i ddisgrifio ei genhadaeth. Hwn yw hunan-deitl Iesu.

Gweddi agoriadol:

O, Fab y Dyn,
yn llonyddwch y munudau hyn
arwain ni i'th bresenoldeb,
a phan fydd geiriau yn methu cyfleu ein teimladau
a phob awydd i addoli yn mynd yn drech na ni,
bryd hynny,
tyrd i'n bywydau
a llanw'n bywydau ni
â chyfoeth dy fywyd di. Amen.

Emyn: *Caneuon Ffydd* 299

Gweddi:

O, Fab y Dyn,

yr wyt ti, heddiw, yn galw arnom.
Boed i ni wrando ar dy lais.
Rwyt ti yn galw arnom,
yn y newynog,
yn y tlawd,
yn y digartref,
yn y diymadferth,
yn y llesg a'r gwan,
ac ym mhawb sydd mewn angen.
Rwyt ti yn galw arnom
yn y dieithryn,
y dioddefwr,
yn y gorthrymydd,
ac ym mhawb sydd mewn angen.
Fab y Dyn, rydym eisiau dy ddilyn
ond mae yna gymaint o rwystrau a rhwydau.
Fab y Dyn, rydym eisiau dy ddilyn
ond mae'n anodd distewi i wrando ar dy lais.
Fab y Dyn, rydym eisiau dy ddilyn
ond, bob tro, mae yna ryw 'os' neu 'ond' yn codi.
Fab y Dyn, rhyddha ni o afael ein hunain
er mwyn i ni roi ein hunain yn llwyr
i dy wasanaethu Di yn y byd. Amen.

Cydganu neu gydadrodd Gweddi'r Arglwydd:

Cefndir:

Iaith bob dydd Iesu oedd Aramaeg ac yn yr iaith honno y geiriau am Fab y Dyn yw *bar nasha*. Nid teitl mohono, ond y ffordd Aramaeg o gyfeirio at 'ddyn', aelod o'r natur ddynol. Petai rhywun yn dechrau dweud stori am ryw ddyn byddai'n dechrau yn ddigon naturiol fel hyn, "Un tro roedd *bar nasha* ar ei ffordd ..." Yn yr Hebraeg, sef iaith yr Hen Destament, cawn *ben adam* sy'n golygu dyn neu fod dynol. Yng nghyfieithiad William Morgan o Salm 8 cawn yr adnod hon, "Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd y lloer a'r sêr, y rhai a ordeiniaist, pa beth yw dyn, i ti i'w gofio? a mab dyn, i ti ymweled ag

ef?" (Salm 8: 3, 4). Mae'r teitl yn ymddangos yn gyson yn llyfr Eseciel a phob tro y mae'n ymadrodd y mae Duw yn ei ddefnyddio i gyfarch y proffwyd, "Wedi imi weld, syrthiais ar fy wyneb, a chlywais lais yn siarad, ac yn dweud wrthyf, 'Fab dyn, saf ar dy draed, ac fe siaradaf â thi"' (Eseciel 2:1). Yn achos Eseciel, mae'r dywediad yn dynodi dynoliaeth y proffwyd gyda'i holl ffaeleddau, o'i gymharu â chadernid a gogoniant Duw.

Darllen: Luc 9: 57–62

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Darllen: Luc 6: 20–23

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Emyn: *Caneuon Ffydd* 381

Anerchiad:

Ar ba achlysuron mae Iesu'n defnyddio'r teitl hwn amdano'i hun? Yn y ddau ddarlleniad a glywsom mae'n defnyddio'r teitl yn lle 'fi' neu 'myfi' pan ddywed ' ond gan Fab y Dyn nid oes lle i roi ei ben i lawr' (Luc 9: 58). Hawdd iawn fyddai iddo ddweud, 'does gen i ddim lle i roi fy mhen i lawr'. Pan oedd Iesu a'i ddisgyblion wedi cyrraedd y man mwyaf gogleddol yr aeth yn ystod ei Weinidogaeth, sef Cesarea Philipi, mae'n gofyn cwestiwn iddyn nhw, "Pwy y mae pobl yn dweud yw Mab y Dyn?" (Mathew 16:13). Ymhellach ymlaen yn yr hanes mae'n ailofyn y cwestiwn, "A chwithau," meddai wrthynt, "pwy meddwch chwi ydwyf fi?" (Mathew 16:15). Gwelwn yma enghraifft o gyfnewid rhwng y rhagenw 'fi' a 'Mab y Dyn'. Mae rhai ysgolheigion yn amau tybed ydi ysgrifenwyr yr Efengylau wedi newid y 'fi' pan oedd Iesu'n siarad i gynnwys 'Mab y Dyn' yn ei le. Yn yr ail ddarlleniad, o efengyl Luc, mor hawdd fyddai aralleirio'r cymal, "Gwyn eich byd pan fydd pobl yn eich casáu, yn eich ysgymuno a'ch gwaradwyddo, ac yn dirmygu eich enw fel peth drwg, o achos Mab y Dyn", i gynnwys 'o'm hachos i' yn hytrach nag 'o achos Mab y Dyn'.

Darllen: Mathew 20: 20–28

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Darllen: Marc 13: 24–26

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Mae'n defnyddio'r teitl pan fo'n cyhoeddi neges sydd o dragwyddol bwys. Mae'n gwneud hynny yn yr adnod a glywsom ar ddechrau'r oedfa. Yn yr adran o efengyl Mathew, ar ôl i fam Iago ac Ioan blagio Iesu gan ofyn am ffafriaeth i'w meibion, mae'n mynd rhagddo i gyhoeddi fod Mab y Dyn wedi dod i wasanaethu ac "i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer" (Mathew 20: 28). Tybed ai teitl oedd hwn ar gyfer achlysuron dyrchafol?

Yn yr ail ddarlleniad mae Iesu yn defnyddio'r teitl pan mae'n sôn am y dyddiau sydd i ddod yn y dyfodol. Dyddiau yw'r rhain fydd yn creu arswyd ac ofn, dyddiau o wae a dinistr, "Tywyllir yr haul, ni rydd y lloer eu llewyrch, syrth y sêr o'r nef, ac ysgydwir y nerthoedd sydd yn y nefoedd." (Marc 13:24, 25)

Darllen: Luc 18: 31–34

Cyfarfod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Mae'r adran hon o efengyl Luc yn cynrychioli sawl adran yn yr Efengylau lle mae Iesu'n sôn yn benodol am ei farwolaeth a'i ddioddefaint. Roedd y syniad y byddai Mab y Dyn yn dioddef yn elfen cwbl wrthun i'w wrandawyr. Beth oedd gan y gogoniant dwyfol, aruchel oedd yn perthyn i Fab y Dyn i'w wneud â chael ei wrthod a'i gondemnio? Yn y cyfnod rhwng y ddau Destament ymddangosodd llyfr Enoc, oddeutu 70 CC. Cawn ddarlun o Fab y Dyn yn y llyfr hwn sy'n barod i ymddangos ar y ddaear yn ei holl rwysg a'i nerth:
"Bydd Mab y Dyn yr hwn wyt wedi'i weld

yn dymchwel brenhinoedd o'u seddau
a'r cryfion o'u gorseddfeinciau.
Bydd yn llacio ffrwynau'r cedyrn
ac yn torri dannedd y pechaduriaid.

Tywyllwch fydd eu hanneddle
a chysgant ar wely o fwydod.
Ni fydd gobaith iddynt godi o'u gwelyau,
gan nad ydynt wedi dyrchafu enw Arglwydd yr Ysbrydion.
Enoc 46:4–6

Yn llyfr Enoc mae'r darlun yn glir; darlun o nerth fydd yn dinistrio'r pechaduriaid, gan roi goruchafiaeth i Fab y Dyn a bydd y ffyddlon yn ymuno yn y llwyddiant. Hwn oedd y darlun a fyddai ym meddyliau'r gwrandawyr. Beth oedd gan oruchafiaeth Mab y Dyn i'w wneud â marw ar y Groes? Ai dyma pam nad oedd y disgyblion yn barod i weld Iesu yn marw ar y Groes, am fod hyn yn gwbl groes i'w cred ym Mab y Dyn ar sail yr hyn a geid yn llyfr Enoc?

Emyn: *Caneuon Ffydd* 286

Cwestiynau i'w trafod:

1. Pam, yn eich tyb chi, fod Iesu wedi defnyddio'r teitl hwn amdano'i hun?
2. Beth oedd arwyddocâd sôn am y groes a'r dioddefaint ar ôl cwestiwn Pedr yng Ngheserea Philipi?
3. Beth oedd ystyr ymateb Iesu i eiriau Pedr, "Dos ymaith o'm golwg, Satan"? (Mathew 16:23) Tybed a oedd Iesu wedi cael ei demtio i ddilyn llwybr Mab y Dyn yn llyfr Enoc?
4. Oni fyddai'n well petai Iesu wedi arfer y teitl 'Meseia' neu 'Fab Duw' amdano'i hun yn unig? Oni fyddai hyn wedi sefydlu ar y cychwyn mai ef oedd y mab ymgnawdoledig?
5. Pam ydych chi'n credu fod Duw a'i Fab yn mynnu cuddio'u hunain. Onid y Crist cuddiedig yw Iesu?

Myfyrdod:

Pa le?

Ar ôl pwysleisio bod teyrnas Dduw wrth law fe gododd y cwestiwn, ym mha le yn hollol? Ac a oedd rhywbeth ychwanegol i edrych ymlaen ato? Er fod grymusterau'r deyrnas ar waith yn barod, roedd Iesu am i'w ddisgyblion wybod bod rhagor i gael ei ddadlennu. Ni fynnai iddynt gredu bod holl drefn y cadw wedi digwydd. Roedd pethau ar droed oedd heb eu cwblhau, neu yn ôl ieithwedd yr ysgolheigion, 'eschatoleg a gychwynnwyd', ac nid 'eschatoleg a wireddwyd' oedd ei ddysgeidiaeth ef. I osgoi'r cysylltiadau â grym a oedd yn ymhlyg yn y term 'teyrnas', fe fabwysiadodd Iesu ddelwedd 'Mab y Dyn' i gyfleu ei ailddyfodiad mewn gogoniant i achub ac i farnu'r byd. Nid yn ddirgel y digwyddai hynny ond 'fel y fellten sy'n fflachio o'r naill gwr o'r nef hyd y llall, felly y bydd Mab y Dyn yn ei ddydd ef' (Luc 17:24). Fodd bynnag, cyn hynny 'y mae'n rhaid iddo ddioddef llawer, a chael ei wrthod gan y genhedlaeth hon' (Luc 17:25). Trwy ddweud hyn fe ddangosodd Iesu nad oedd digwyddiadau arswydus y dyddiau diwethaf yn Jerwsalem y tu hwnt i bwrpas achubiaeth Duw. Yn wir, roedd parodrwydd i ddioddef ac i farw yn rhan o'r drefn.

Er fod pethau mor dyngedfennol yn digwydd o'u cwmpas, yr eironi oedd fod pobl yn bwyta ac yn yfed, yn prynu ac yn gwerthu, yn bwrw ymlaen â'u gweithgareddau beunyddiol yn gwbl ddidaro, yn union fel y bu hi yn nyddiau Noa a Lot (Luc 17: 26–28). Yng nghanol y difrawder hwn câi Mab y Dyn ei ddatguddio (Luc 17:30). Diwrnod o waredigaeth ac o farn fyddai hwnnw. Rhybuddiwyd y disgyblion i beidio â rhoi'u bryd ar feddiannau ac ar 'bethau' (Luc 17:31). 'Pwy bynnag a gais gadw ei fywyd ei hun, fe'i cyll, a phwy bynnag a'i cyll, fe'i ceidw yn fyw' (Luc 17:33). Yn ôl yr egwyddor hon y bu Iesu fyw a marw. Fe'i gweithredodd hyd yr eithaf gan brofi bod bywyd ar gael y tu hwnt i angau. Dyma'r ffordd o fyw a gynigiodd i'w ddisgyblion: llwybr ffydd (Luc 18:8) a fentrai'r cyfan gan ddibynnu ar Dduw, rhoddwr bywyd. Rhennid teuluoedd (Luc 17:34) a chyd-weithwyr (Luc 17:35) pan ddatguddid Mab y Dyn ar sail hyn. Câi'r sawl a fu byw trwy ffydd yn Nuw eu cadw, tra byddai'r sawl a geisiodd ei waredu ei hun yn ei nerth ei hun yn cael ei adael ar ôl a'i golli (Luc 17: 33–36). Dyma wirionedd a oedd mor amlwg â haul canol dydd. Afraid holi, 'Ble, Arglwydd?' Fel

yr adwaenai'r adar ysglyfaethus y gelain o bell, byddai Mab y Dyn yn adnabod y sawl a roes eu hymddiriedaeth a'u ffydd ynddo ef, a deuai canlyniadau hynny yn amlwg i bawb. *Saunders Davies*

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Emyn: *Caneuon Ffydd* 382

Y Fendith:

Gras ein Harglwydd Iesu Grist a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda ni. Amen.